

Please scroll down for English version

16/03/20

Annwyl Riant / Warchediwad,

Ein blaenoriaeth fel ysgol pob tro yw iechyd a lles ein disgyblion a staff. Rydym yn monitro'r sefyllfa iechyd bresennol yn agos ac yn parhau i gymryd cyngor gan Lywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru ac Awdurdod Lleol Abertawe. Os yw eich plentyn yn arddangos rhai o'r symptomau, sef tymheredd uchel, peswch parhaol, teimlo'n brin o anadl neu lwnc tost, yna dilynwch y cyngor addas a sicrhau eu bod yn hunan-ynysu am y cyfnod a awgrymir. Gweler y ddau linc isod i safwe Iechyd Cyhoeddus Cymru a safwe ALL Abertawe:

<https://phw.nhs.wales/coronavirus> <https://www.swansea.gov.uk/coronavirusadvice>.

Yn sgîl y datblygiadau cynyddol gyda sefyllfa lledaenu 'coronavirus', rydym wedi penderfynu fel ysgol i ganslo unrhyw weithgareddau allgyrsiol, nosweithiau ar gyfer rieni ac unrhyw ymweliadau i'r ysgol gan ddarparwyr allanol, allan o'r ysgol gan ddisgyblion a staff a gwasanaethau. Mi fyddwn yn parhau i gynnal cyfarfodydd gyda asiantaethau sydd yn cefnogi lles a chynnydd ein disgyblion. Bydd ein ffocws ar gynnal dysgu ac addysgu ein disgyblion yn y cyfnod yma.

Wrth baratoi ar gyfer sefyllfa ble fydd ysgolion **o bosib** yn cael eu gorfodi i gau, rydym wedi bod wrthi yn gwneud paratoadau ar gyfer cynnal cefnogaeth i'n disgyblion o bellter. Yn naturiol mae mynediad at adnoddau digidol yn hanfodol ar gyfer hyn er mwyn cael mynediad at grwpiau dysgu e.e. 'Dosbarthiadau Hwb' a 'Microsoft Teams'. Rydym wedi casglu enwau disgyblion ble fyddwn yn benthyg offer digidol iddynt er mwyn gallu cael mynediad at yr adnoddau yma. Os oes angen offer ar eich plentyn, cysylltwch â'r ysgol. Yn ogystal, mae ein staff wedi paratoi pecynnau caled o waith i ddisgyblion er mwyn gallu parhau i weithio'n annibynnol adref os fydd angen.

Byddwn yn cysylltu gyda'ch plentyn a chithau drwy'r ap 'Show My Homework' er mwyn eich hysbysu o waith fydd yn cael ei osod. A wnewch chi sicrhau eich bod yn defnyddio hwn yn gyson er mwyn gallu cefnogi eich plentyn. Os nad oes mynediad gennych, yna cysylltwch gyda Mr Hywel Pugh ar ei e-bost: PughH25@hwbcymru.net neu drwy gysylltu gyda'r ysgol er mwyn iddo sicrhau mynediad ar eich cyfer.

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i annog disgyblion a staff i:

- olchi eu dwylo'n aml gyda dŵr a sebon am o leiaf 20 eiliad (mae cyflenwad parhaus ar gael yn tai bach)
- olchi eu dwylo bob tro maent yn cyrraedd adref neu'n cyrraedd y gwaith



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwryosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: vgg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR | Aur
MEWN POBL



- ddefnyddio jel diheintio dwylo os nad oes dŵr a sebon ar gael (mae nifer fawr o'r peiriannau yma o gwmpas yr Ysgol)
- orchuddio eu ceg a'u trwyn gyda hances boced neu lawes (nid eu dwylo) wrth beswch neu disian (ei ddal, ei daflu, ei ddifa)
- roi hancesi poced yn y bin yn syth ar ôl eu defnyddio a golchu eu dwylo wedyn
- geisio osgoi dod yn agos at bobl sy'n sâl
- beidio â chyffwrdd eu llygaid, trwyn neu geg os nad yw eu dwylo'n lân.

Yn naturiol, rydym yn wynebu sefyllfa heriol iawn sydd hefyd yn newidiol iawn a fe wnawn bob ymdrech i'ch cadw mewn gwybodaeth (gwiriwch ein gwefan a'n cyfrif trydar - @bryntawe yn gyson). Cofiwch i gysylltu os oes unrhyw bryderon neu gwestiynau pellach gennych.

Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR
MEWN POBL | Aur



16/03/20

Dear Parent / Guardian,

Our first priority as always is to ensure the health and well-being of our pupils and staff. We are currently monitoring the public health situation very closely and are continuing to follow the advice issued by Welsh Government, Public Health Wales and the City and County of Swansea LA. If your child displays any of the symptoms such as a high temperature, continuous coughing, shortness of breath, or a sore throat then please follow the current advice issued and self-isolate for the recommended period. Both links below will offer you up-to-date advice on what to do:

<https://phw.nhs.wales/coronavirus> <https://www.swansea.gov.uk/coronavirusadvice>.

As a result of the continuing spread of the 'coronavirus', we have made the decision as a school to cancel all extra curricular activity, parents' evenings, visits to school from outside providers and trips by pupils and staff, in addition to school assemblies. We will continue to hold meetings with agencies that support the well-being and progress of our pupils. Our focus will remain solely on the teaching and learning of our pupils during this period.

We are also preparing to be able to continue to support the learning of our pupils remotely if we reach a situation where schools **may** be forced to close. Naturally, access to digital resources is essential to access the groups such as 'Hwb Classrooms' and 'Microsoft Teams'. We have collected the names of pupils who may not have access to digital equipment and are preparing to lend school equipment to as many of these individuals as possible in order to access these resources. If your son or daughter requires support with digital resources, please contact me at school. Staff have also prepared paper copies of resources for pupils to continue their independent study at home if required.

We will stay in contact with our pupils to be able to work remotely and parents to be able to support their child via the Show My Homework app. Can you please ensure that you have access to the app and check it regularly for any updated tasks and work. If you currently don't have access can you contact Mr Hywel Pugh via his e-mail: PughH25@hwbcymru.net or contact him at the school directly and he will ensure that you receive access to all of the information shared.

In the meantime, we will continue to encourage all pupils and staff to take steps to avoid and reduce the transfer of the virus through the following recommendations:

- Wash your hands with soap and water often – do this for at least 20 seconds
- Wash your hands every time you arrive at and leave school
- Use a hand sanitiser gel (if there is no soap or water available)
- Cover your mouth and nose with a tissue (not your hands) when you cough or sneeze



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR
MEWN POBL

Aur



- Dispose of used tissues in the bin straight away and wash your hands afterwards
- Bring to school your own disposable tissues and follow the advice “Catch it! Kill it! Bin it!”
- Do not touch your eyes, nose or mouth if your hands are not clean

We are facing a very challenging and changeable situation, but we continue to make every effort to keep in contact with our parents (please check our website and our twitter account - @bryntawe – regularly). Please get in touch should you have any further questions or concerns.

Yours sincerely,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR | Aur
MEWN POBL

